# Crynodeb o'r ymatebion

## i'r Ymgynghoriad ynghylch Gweithredu'r Cytundeb ar Safonau Rhyngwladol ar gyfer Trapio heb Greulondeb

**Mehefin 2018**

© Hawlfraint y Goron 2018

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f.3. Er mwyn gweld y drwydded hon www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch e-bost i PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

AIHTS Consultation
Wildlife Management and Crime Team
Department for Environment, Food and Rural Affairs
Horizon House,
Floor 2,
Deanery Road,
Bristol,
BS1 5AH

AIHTSConsultation@defra.gsi.gov.uk

www.gov.uk/defra

## Cynnwys


Cyflwyniad .... 4

I'r polisi .... 4

Pam ydym yn gofyn am sylwadau .... 4

Nifer yr ymatebion a ddaeth i law .... 5

Y prif bwyntiau a godwyd .... 5

Y camau nesaf – beth yw cynlluniau'r Llywodraeth o ganlyniad i'r ymgynghoriad? .... 6

Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd .... 8

# Cyflwyniad

Gwnaethom geisio barn ar gynigion ar gyfer gweithredu'r Cytundeb ar Safonau Trapio Heb Greulondeb Rhyngwladol (AIHTS) yn y DU.  Rydym hefyd yn ceisio tystiolaeth ar y cyflenwad, defnydd â  marcio trapiau.  Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 19 Mawrth 2018 a 30 Ebrill 2018.  Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd ac yn nodi'r hyn y bwriadwn ei wneud nesaf.

## I'r polisi

Mae'r Cytundeb hwn yn gymwys i nifer cyfyngedig o rywogaethau yn y DU (carlymod, moch daear, dyfrgwn, afancod a beleod). O blith y rhain, dim ond carlymod sy'n cael eu trapio'n rheolaidd yn y DU.

Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU sefydlu prosesau priodol ar gyfer profi ac ardystio trapiau yn unol â'r safonau trapio heb greulondeb ("y Safonau") a amlinellir yn y Cytundeb. Rhaid inni wahardd defnyddio trapiau nad ydynt wedi'u hardystio'n rhai sy'n cyrraedd y Safonau.

Mae'r Cytundeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i weithgynhyrchwyr 'nodi' trapiau ardystiedig a rhoi cyfarwyddiadau i'w lleoli'n briodol, eu gweithredu'n ddiogel a'u cynnal a'u cadw. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i drapwyr gael eu hyfforddi i ddefnyddio dulliau trapio diogel ac effeithiol nad ydynt yn achosi creulondeb, gan gynnwys dulliau newydd wrth i'r rhain gael eu datblygu.

Mae rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaethau'r UE i weithredu gofynion y Cytundeb a'r terfyn amser ar gyfer gwneud hynny oedd 22 Gorffennaf 2016. Ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd pobl y Deyrnas Unedig o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Hyd nes bod cyd-drafodaethau gadael wedi dod i ben, erys y DU yn aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd ac mae pob un o hawliau a rhwymedigaethau aelodaeth o'r UE yn parhau mewn grym.


## Pam ydym yn gofyn am sylwadau

Gofynnom am sylwadau ar gynigion i weithredu'r Cytundeb cyn gynted ag oedd yn ymarferol bosibl gan ddefnyddio’r fframweithiau deddfwriaethol presennol.

Nodwyd cynigion am weithredu’r  Cytundeb  yn y DU er mwyn gwella lles anifeiliaid penodol sy'n cael eu trapio, a hefyd gasglu gwybodaeth am gyflenwi, defnyddio a marcio trapiau. Roeddem am ddeall sut yr oedd grwpiau sy’n gwneud, gwerthu neu ddefnyddio trapiau a llinellau yn credu y byddai'r Cytundeb yn effeithio arnyn nhw a deall barn grwpiau eraill â buddiant ac aelodau'r cyhoedd.

# Nifer yr ymatebion a ddaeth i law

Ymatebodd 384 o bobl a sefydliadau i'r ymgynghoriad. Gwnaeth dros 60% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar eu rhan eu hunain, ac ymatebodd traean o'r ymatebwyr ar ran busnes neu sefydliad aelodaeth:




Roedd rhyw 4% o ymatebwyr yn gweithredu'n bennaf naill ai yng Nghymru neu'n Gogledd Iwerddon, gyda 73% yn Lloegr a 23% yn yr Alban.

# Y prif bwyntiau a godwyd

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr o blaid y gwelliannau lles a fyddai'n deillio o weithredu'r Cytundeb. Fodd bynnag, roedd llawer yn gwrthwynebu gweithredu'r Cytundeb. Roedd dau brif reswm am hyn:

a) Roedd 74% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu gweithredu'r Cytundeb ar y dyddiad arfaethedig, sef Ionawr 2019. Credent na fydd digon o drapiau ar gyfer carlymod a fydd yn cydymffurfio â'r Cytundeb ar gael i'w prynu a'u gosod cyn y dyddiad hwn.

b) Roedd eraill yn gwrthwynebu oherwydd credent y byddai'n hwyluso'r defnydd ehangach o drapiau ac yn hybu'r fasnach grwyn ryngwladol.

Roedd 67.1% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer trapiau dal yn fyw. Cynigiwyd gennym y dylid caniatáu trapio carlymod gan ddefnyddio trapiau sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb o dan drwydded gyffredinol i leihau effaith trwyddedu ar drapwyr ac awdurdodau trwyddedu. Dim ond trapiau sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb fyddai'n cael eu trwyddedu; byddai trapiau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Cytundeb yn cael eu gwahardd o fis Ionawr 2019 ymlaen.

I'r gwrthwyneb, roedd 68.2% yn anghytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer trapiau marwol. Fel y nodir uchod, y prif reswm am hynny oedd bod pobl yn poeni ynghylch nifer y trapiau sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb fyddai ar gael cyn y dyddiad gweithredu arfaethedig ym mis Ionawr 2019.

Roedd y mwyafrif llethol (76.2%) yn cytuno â'r cynigion ynghylch darparu gofynion hyfforddi ar gyfer defnyddwyr trapiau. Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i drapwyr gael eu hyfforddi i ddefnyddio dulliau trapio diogel ac effeithiol nad ydynt yn achosi creulondeb, gan gynnwys dulliau newydd wrth i'r rhain gael eu datblygu. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi ei fod yn fodlon y byddai'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau a roddir gyda thrapiau pan gânt eu gwerthu yn bodloni'r gofyniad hwn. Cynigiwyd gennym y byddai amodau defnydd trwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol i drapiwr ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr i osod trap yn ddigonol i fodloni'r gofyniad hwn dan y Cytundeb.

Yn debyg, roedd 77.8% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r gofynion marcio trap. Nid yw'r Cytundeb yn rhagnodi sut y dylai trapiau ardystiedig gael eu nodi, yr hyn yw diben y marciau ac a ddylai'r marciau fod yn rhai parhaol. Cynigiwyd gennym fod angen i unrhyw farciau fod yn rhai parhaol a bod yn ddarllenadwy ar ôl blynyddoedd o wasanaeth trapio. Yn ddelfrydol, dylai'r marc gael ei stampio neu ei foglynnu ar blât adnabod sydd wedi'i atodi'n barhaol (e.e. wedi'i rybedu) i'r trap ei hun.

Cytunodd 81.6% o’r ymatebwyr â'r cynigion ynghylch darparu cyfarwyddiadau gyda thrap. Cynigiwyd gennym y gellid darparu cyfarwyddiadau gyda'r trap pan gaiff ei brynu ar-lein a dylent fod ar gael drwy law'r gweithgynhyrchwr (naill ai drwy'r post neu ar-lein).

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r dull a gymerwyd yn yr Asesiad o'r Effaith (42%) a chasgliadau'r asesiad (51.6%). Roedd llawer o'r rheini wedi anghytuno â'r Asesiad o'r Effaith oherwydd teimlent y byddai’n anodd ac yn ddrud prynu a gosod trapiau ar gyfer carlymod sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb cyn y dyddiad gweithredu arfaethedig o Ionawr 2019 a dan-amcangyfrifwyd. Fodd bynnag, ni wnaeth yr ymgynghoriad rhoi unrhyw ddata dibynadwy pellach sy’n annog Llywodraeth i ddiwygio ei asesiad.

# Y camau nesaf – beth yw cynlluniau'r Llywodraeth o ganlyniad i'r ymgynghoriad?

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y ddadl a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr sy'n nodi y byddai gweithredu'r Cytundeb ym mis Ionawr 2019 yn heriol i bobl sy'n trapio carlymod. Mae angen mwy o amser ar weithgynhyrchwyr i gynhyrchu digon o drapiau sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb neu i ddefnyddwyr osod trapiau newydd yn lle'r rhai presennol.

Byddwn yn gweithredu'r Cytundeb mor gynnar â phosib yn 2019 ond byddwn yn cynnwys darpariaeth drosiannol ar gyfer carlymod a fydd yn gohirio gweithredu'r Cytundeb ar gyfer yr anifail hwn am flwyddyn o ddyddiad y gweithredu. Mae hyn yn

rhoi neges glir i weithgynhyrchwyr a defnyddwyr trapiau bod yn rhaid iddynt drosglwyddo i drapiau sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb, gan gydnabod bod angen amser arnynt wneud hynny ar yr un pryd.

# Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd

Angling Trust
Animal Aid
BH Sporting Ltd
Birkdale Estate
Black Mountain Farms
Blacks of Bacton
Blea Moor partnership
Blubberhouses Moor Estate Ltd
Bolton Abbey Estate
Bolton Estate
Born Free Foundation
Bowes Moor Estate
Bowland Grouse Syndicate
Bradfield Moor
Bransdale Moor
Brickyard Shoot
British Association for Shooting and Conservation
British Fur Trade Association
British Moorlands Ltd
Buccleuch Sporting , Drumlandrig Estate
Castle Hill Shoot
Catlin Estates Ltd
Cheltenham Bird Club
Coverhead Estate
Crag Estate
Crown Point Estate
Dallowgill Estate
Danby Shoot
Darley Estates
Derbyshire Constabulary
Dunlin Ltd
East Allenheads Estate
Edinglassie
Egton Estate
Fordie Estate Ltd
Forestry Commission England
Fourteenacre Ltd
Game & Wildlife Conservation Trust
Gisborough Estate Syndicate Shoot
Glemham Hall Shoot Ltd

Glenlethnot Est.
Glens shooting Syndicate
Good Knight Environmental Pest control
Greens Chartered Surveyors
Gunnerside Estate
H&G Denny
Harris & Sheldon Group Ltd
Holker
Humane Society International UK
humberside police
Jervaulx moor
JM Osborne and Co
JMF Fenwick
Kennel Club
Killgerm Chemicals
Kirkley Hall
KM Pressings Ltd
League Against Cruel Sports
Longformacus
Longside
lowerwoodford shoot
Moorland Association
Mosswood Group
National Anti-Snaring Campaign
National Gamekeepers Organisation
National Gamekeepers' Organisation
Natural Resources Wales
Newbibbing Hall Estate shoot
Nidderdale Pheasant Shoot
Northumberland Estates
Northumbria Police
Okeover Shoot run by Avochie Sporting
P D Carter
Pembrey Pest Control
Pennyholme Estate
Pilkington farm partnership
Plowden Estate
Respect for Animals
Rhiedorrach Estate
Roxburghe Estates
Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals
Royal Society for the Protection of Birds
Ruffside Estate
Rusca Farm

Scottish Association for Country Sports
Scottish Gamekeepers Association
Scottish Land & Estates
Scottish Wildlife Trust
Sheffield and Rotherham Wildlife Trust
Shoot Tenant
Shore Hall Estates Ltd
Snilesworth Estate
Snilesworth Estate Ltd
Sorn castle Estate
Swinton Estate
Swinton Estate Moorkeepers
Swinton Estate Pheasant Keepers
Telfit Farm Partnership
Tully Trap c/o Managed Estates
Universities Federation for Animal Welfare
Upperwood Estate
Urra Estate
Vincent Wildlife Trust
W & PLM
Walshaw Moor Estate
Wanwood Syndicate
Wemmergill Moor Ltd
Whitfield Estate
Whitfield sporting
Wild Animal Welfare Committee
Wildlife Trusts Wales
Wolfen Hall Estate
Wykeham Shoot
Yad Moss Shoot
York’s Sports Ltd